LGBC4M/2003

CYFARFOD O'R COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AM 10.30AM DDYDD MERCHER 21ain MAI 2003 YN NHŶ CARADOG, ST ANDREWS PLACE, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr. D H Roberts (Aelod)	Mr. C Chapman
	Mr. D Carr

1. Cofnodion cyfarfodydd y Comisiwn a gynhaliwyd ar 17eg Mawrth ac 8ed Ebrill 2003.

1.1 Cytunwyd ar y rhain.

2. Materion yn Codi.

2.1 Hyfforddiant Comisiynwyr

2.1.1 **Nodwyd** y dylai'r cofnodion blaenorol fod wedi cyfeirio at Gynhadledd Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y 3ydd a'r 4ydd Medi 2003, lle mae'r Comisiynwyr wedi cytuno i fod yn bresennol.

2.1.2 **Cytunwyd** y dylid trefnu cyfarfod o'r Comisiwn oddeutu'r un dyddiadau â'r Gynhadledd hon.

2.1.3 **Nodwyd hefyd** bod dwy gynhadledd ar gyfer Cymdeithasau Tref a Chymunedau Cymru yn eu tro a allai fod o ddiddordeb i'r Comisiynwyr eu mynychu, er y gallai'r cyrff hyn fod yn ymuno cyn bo hir, a gallai'r trefniadau ar gyfer eu cynadleddau newid.

2.2 Technoleg Gwybodaeth

2.2.1 **Nodwyd** er bod y system gyfrifiaduron newydd wedi cael ei gosod yn ei lle, bod rhai problemau, megis yr anallu i lwytho ffotograffau o gamera digidol, yn dal i fodoli. **Adroddwyd** bod y materion hyn yn cael eu datrys.

2.2.2 **Nodwyd** mai mater arall oedd heb ei ddatrys oedd trosglwyddo Gwasanaethydd y Comisiwn i Dŷ Caradog, a fyddai'n lleddfu'r oedi mewn cyfathrebu gwybodaeth i gyfrifiaduron pen-desg. Disgwylir ymweliad gan adran Letya'r Cynulliad i asesu gwaith adferol, y byddai angen ei wneud cyn y gallent wneud cais i Landlord Tŷ Caradog am ganiatâd i wneud y gwaith. Hyd yn hyn, ni dderbyniwyd amserlen gan y Comisiwn.

2.2.3 Unwaith y caiff y gwaith adferol ei gwblhau, gallai'r Gwasanaethydd gael ei drosglwyddo i Dŷ Caradog.

2.3 Arolwg o'r Ffiniau rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys yn ardal Cwm-twrch - Adroddiad ar y Cynigion Terfynol

2.3.1 **Nodwyd** bod yr adroddiad cynigion terfynol gyda'r argraffwyr ar hyn o bryd ac y câi ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mai 2003.

2.4 Arolwg o'r Ffin yn Ardal Aberhonddu

2.4.1 Datganwyd pryder ynglŷn â'r amser yr oedd yn ei gymryd i ddechrau'r arolwg hwn. Cafwyd ar ddeall bod cytundeb blaenorol yn nodi bod cyfnod o 4 mis ar gael i gynnal yr arolwg Cymuned. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn adrodd yn ôl os oedd yr amserlen hon yn gywir. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi trefnu arolwg i ddechrau ym mis Gorffennaf 2003 er mwyn osgoi gwrthdaro â phrosiectau eraill y Comisiwn a gwaith Seneddol sy'n cael ei wneud gan yr Ysgrifenyddiaeth ar hyn o bryd.

2.4.2 **Nodwyd** bod ymweliad safle â'r ardal dan sylw wedi cael ei gynnal ar 19 Mai 2003.

2.5 Data Ffiniau Wardiau Cymunedol

2.5.1 Yn dilyn ymholiadau cychwynnol a wnaed i awdurdodau lleol gan y Comisiwn mewn cysylltiad ag unrhyw ddata sydd gan yr awdurdodau, **nodwyd** mai dim ond pump o'r ddau awdurdod ar hugain oedd wedi ymateb.

2.5.2 **Cytunwyd** y dylid ysgrifennu at yr awdurdodau eto, ac y dylid ceisio cymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ganfod lefel y data sydd gan yr awdurdodau a'u cymorth i ddiweddaru'r data unwaith y bydd ar gael yn ganolog.

2.5.3 **Cytunwyd** y dylai'r Ysgrifennydd geisio cysylltu â Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn am eu cefnogaeth i gasglu'r wybodaeth a'r cymorth.

2.5.4 Unwaith y daw'r wybodaeth i law gan y Cynghorau, byddai achos busnes yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer ariannu contractwyr i wneud y gwaith o gasglu'r data. Câi'r contractwyr eu penodi yn dilyn proses dendro.

3. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Sir Gaerfyrddin a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ardal Cwmllynfell – Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Lafar

3.1 **Cadarnhawyd** mai er lles trigolion y cymunedau lleol y trefnir y cyfarfod ar gyfer y 19eg Mehefin 2003. Diben y cyfarfod fyddai hysbysu'r trigolion lleol o'r dewisiadau cyfredol o gynigion ac ateb cwestiynau am y cynigion hyn.

3.2 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiynwyr ar gael i gwrdd â'r cynghorau cymuned a'r prif awdurdodau yn ystod prynhawn y 19eg Mehefin 2003. Byddai llythyrau yn cael eu hanfon at y cyrff hyn yn eu gwahodd i fod yn bresennol yn y prynhawn.

3.3 **Nodwyd** mai arbrawf yw'r arfer presennol o anfon llythyrau at yr holl drigolion er mwyn mynd i'r afael â beirniadaeth flaenorol gan drigolion a oedd yn honni nad oeddynt yn ymwybodol o'r arolwg. Nodwyd hefyd bod Neuadd Mileniwm Cwmllynfell wedi cael ei llogi i gynnal y digwyddiad.

4. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Cymunedau Dyffryn Clydach a Blaenhonddan ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Lafar.

4.1 **Nodwyd** bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi cytuno i ddarparu cynlluniau o'r ardal sy'n cael ei datblygu gerllaw'r Ffin gymunedol newydd arfaethedig. Disgwylid y cynlluniau hyn erbyn 23ain Mai 2003.

4.2 **Cytunwyd** i adolygu'r sefyllfa unwaith y byddai'r cynlluniau hyn wedi dod i law.

5. Cynllun Iaith Gymraeg – Adroddiad Blynyddol 2002/2003.

5.1 **Cytunwyd** i dderbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn. Byddai'r adroddiad nawr yn cael ei gyfieithu cyn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w gymeradwyo.

6. Unrhyw Fater Arall.

6.1 Arolwg o Drefniadau Teithio ar y Trên

6.1.1 Yn dilyn cyngor gan y cwmni sy'n cyflenwi tocynnau trên ymlaen llaw i'r Comisiwn, nad yw'r gwariant presennol yn cyfiawnhau cyfleuster credyd gyda'r cwmni, cafwyd cyngor gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol y byddai'n ddoeth i'r Comisiwn gael cerdyn credyd corfforaethol at ddibenion prynu tocynnau teithio ar y trên a thocynnau teithio eraill.

6.1.2 **Cytunwyd** y dylid ceisio cyngor gan Is-adran Atebolrwydd Ariannol y Cynulliad ar eu harfer gorau o ran defnyddio cardiau credyd corfforaethol a'r goblygiadau o ran rheoli risg.

6.2 Adroddiad Monitro Cyllidebau

6.2.1 Trafododd y cyfarfod faterion oedd yn gysylltiedig â derbyn anfonebau yn hwyr ynghyd â materion eraill oedd yn ymwneud â chontract Siemens.

6.2.2 **Nodwyd** bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cymeradwyo talu anfoneb a gyflwynwyd fel llungopi gan ei fod yn dystiolaeth nad oedd y Comisiwn wedi derbyn y gwreiddiol.

6.2.3 **Nodwyd** y byddai cais am ganiatâd i drosglwyddo symiau bach o arian rhwng cyllidebau cyfalaf a rhaglenni yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad.

6.2.4 **Cytunwyd** ar y papur.

6.3 Ymarferion Rhannu Contractau a Thendrau

6.3.1 **Nodwyd** bod cyngor wedi dod i law gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol y byddai'n synhwyrol i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru rannu contractau

gyda'r Comisiwn Ffiniau (Seneddol) i Gymru gan eu bod yn rhannu yr un Ysgrifenyddiaeth.

6.3.2 **Cytunwyd** y dylai memorandwm cytundeb gael ei lunio i ffurfioli'r cytundeb hwn, ac y dylai Cadeirydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru a Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru ei lofnodi. Byddai'r cytundeb hwn o gymorth wrth ddarparu llwybr archwilio pe bai contractau o'r fath yn destun archwiliad beirniadol.

6.3.3 Y contract cyntaf i ddod o dan y cytundeb hwn fyddai'r Contract Gwasanaethau Cyfreithiol sydd wedi ei roi ar dendr ar hyn o bryd.

6.3.4 Gan y byddai wedi bod yn amhriodol i'r dogfennau tendro gael eu gwirio gan ein contractwyr gwasanaethau cyfreithiol presennol **nodwyd** bod Swyddfa Cydymffurfio y Cynulliad wedi eu cymeradwyo.

6.4 Byrddau Iechyd Lleol

6.4.1 **Nodwyd** bod y Cynulliad wedi gwneud cais i'r Comisiwn ymgynghori â Byrddau Iechyd Lleol mewn cysylltiad ag ymarferion arolwg ffiniau yn y dyfodol gan fod ardaloedd gweinyddol y Byrddau yn cwmpasu yr un ffiniau ag Awdurdodau Unedol.

6.4.2 **Cytunwyd** y byddai'r Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu hychwanegu at y rhestr ddosbarthu ar gyfer arolygon y Comisiwn.

6.5 Cyfarfod Blynyddol

6.5.1 **Cytunwyd** i wahodd Gweinidog newydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i annerch Cyfarfod Blynyddol 2003.

6.5.2 Os cytuna'r Gweinidog i annerch y cyfarfod, **cytunwyd** y dylai amser dechrau'r cyfarfod gael ei ddwyn ymlaen er mwyn galluogi'r Gweinidog i fynychu cyfarfod llawn y Cynulliad y prynhawn hwnnw.

6.6 Arolwg o'r Ffin yn Ardal Cymunedau Bracla a Choity Uchaf

6.6.1 **Nodwyd** y byddai'r arolwg o'r ffin yn ardal cymuned Bracla yn dechrau ym mis Mehefin 2003.

7. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

7.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Gwener 20fed Mehefin 2003. Byddai'r cyfarfod yn dechrau yn dilyn cwblhau cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio sydd wedi ei drefnu ar gyfer y diwrnod hwnnw.